

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 14eg o Hydref 2020 am 7.30 o'r gloch yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

**Presennol;** Cynghorwyr Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Arfon Hughes, Robin Hughes, Berwyn Harding, Sion Alun Roberts, Geraint Morgans, Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cynghorydd Berwyn Hughes. Roedd ymddiheuriadau gan y Cyng John P Roberts.(Cyngor Gwynedd)
2. Croesawyd Jonathan Cawley a oedd yn ymuno drwy gyfrwng llinell ffon i drafod cais *Adeiladu Ty, Tir ger y fynwent , Dinas Mawddwy*. Roedd hwn l'w drafod ymhellach mewn cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio y Parc Cenedlaethol dydd Mercher yr 21ain o Hydref.

Cyn derbyn unrhyw gwestiynau, rhoddodd Jonathan Cawley grynodedb o'r sefyllfa bresennol, sef fod y cais, sef cael ty 'marchnad agored' ar y safle wedi ei ystyried yn y cyfarfod ar yr 2ail o Fedi. Nid oedd pleidlais wedi ei gymryd y diwrnod hwnnw, ac roedd ef wedi gorfod dweud fod y cais yn groes i bolisi, gan ei fod tu hwnt i linell datblygu y pentref. Roedd wedi gofyn i'r ymgeisydd ystyried cais ty 'menter gwledig' ar y safle. Erbyn hyn roedd yr ymgeisydd wedi danfon mwy o wybodaeth am ei sefyllfa a pharhau gyda'r cais gwreiddiol. Pwysleisiwyd fod y Cyngor Cymuned yn 100% cefnogol i'r cais yma, a'n bod eisiau gwneud pob dim o fewn ein gallu i gefnogi.

Rhoddwyd nifer o sylwadau a chwestiynau, a dywedwyd mai yr unig opsiwn yn y sefyllfa yma oedd y cais sydd gerbron, gan na fedrai'r ymgeisydd gael arian morgais i dy 'menter gwledig', ac roedd llythyrau wedi eu danfon i mewn yn cadarnhau hyn. Roedd yma gwpwl ifanc, yn Gymry Cymraeg, eisiau sefyll ar eu traed eu hunain, eisiau byw a gweithio yn lleol, ac roedd y sistem yn eu rhwystro. Atebodd Jonathan Cawley ei fod yn cydymdeimlo gyda'r achos, ond nad oedd y sistem gynllunio yn gwahaniaethu rhwng person lleol a pherson o'r tu allan, ac yn ol tystiolaeth ganddo, roedd modd cael codi arian ar dy 'menter gwledig' hefyd.

Codwyd cwestiwn am ymchwil diweddar yn datgelu fod 43% o weithwyr y sector amaeth o gymhau gweddill y boblogaeth ac y dylid cymryd hyn i ystyriaeth. Hefyd holwyd am yr opsiwn o greu amod cyfreithiol i gadw y ty i berson lleol. Ymatebodd Jonathan Cawley fod rhaid iddynt gadw at ganllawiau eu polisi a'r hyn, ac hefyd at beth oedd yn cael ei ganiatau gan y Llywodraeth.

Gofynnwyd hefyd gwestiwn yn achos Cynllunio Cefngwyn, Aberangell. Roedd angen eglurhad ar y broses, gan fod y Cynghorydd Sir John P Roberts wedi dweud nad oedd modd iddo ef dynnu y cais i mewn i Bwyllgor oherwydd nad oedd y Cyngor Cymuned wedi rhoi rheswn am eu barn. Atebodd Jonathan drwy ddweud fod yn bwysig i'r Cyngor Cymuned roi rhesymau cynllunio cadarn, ac os yw hyn yn cael ei wneud, ac yn groes i argymhellaid swyddogion y Parc, byddai modd tynnu y cais i mewn i bwyllgor.

Fodd bynnag, ac arwahan i hynny, roedd gan Aelod o'r Awdurdod hefyd gyfle i dynnu y cais i mewn i bwyllgor, eto gyda rhesymau cynllunio cadarn, ond yn achos Cefngwyn, ni dderbyniwyd cais gan unrhyw aelod.

Diolchwyd yn fawr iawn i Jonathan am ymuno efo ni, a chytunodd hefyd i drafod unrhyw fater dros y ffon yn unigol gyda unrhyw aelod o Gyngor Mawddwy.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gyfarfu ar yr 2ail o Fedi (ar zoom) fel rhai cywir ar gynnig Cyng Hedd Pugh a'i eilio gan Geraint Morgans.
4. **Materion yn codi** .
  - a. **Materion Priffyrdd** – adroddwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf. Nid oedd ymateb gan Steffan Jones. Yna aethpwyd ymlaen i drafod sefyllfa y biniau halen. Penderfynwyd cael bin o'r newydd ar y Cytir (uwchlaw Ty gwyn) ac hefyd ar rhiw Abercowarch. Roedd angen llenwi y bin ger Bwlchcoediog, ac adroddwyd am nifer o finiau lle roedd yr halen ynddynt yn galed na fyddai modd ei ddefnyddio. Addawodd nifer o Gynghorwyr edrych yn eu hardaloedd, ac adrodd i'r Clerc.
  - b. **Mynwentydd yr ardal** – yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, roedd Cyng Hedd Pugh a Sion Alun Roberts wedi ymweld a mynwent Llanymawddwy, ac roedd y cerrig yn ymddangos yn iawn yno. Byddai Cyng Geraint Morgans a Robin Hughes yn adrodd ymhellach ar sefyllfa mynwnet Mallwyd. Byddai modd wedyn i gael adroddiadau erbyn y cyfarfod nesaf, a phendefynnu ymhellach, a chysylltu gyda Rhys Bleddyn.

Tra'n trafod hyn, nodwyd fod angen torri y sientin tu cefn i fynwent Llanymawddwy, ac y dylid gofyn i Tegid, Cwmllinau i wneud y gwaith. Gwelwyd fod angen cael trefn fel bod hyn yn cael ei wneud yn flynyddol.
  - c. **Ymgynghoriad y Parc Cenedlaethol** – roedd y Cyng Arfon Hughes a Hedd Pugh wedi ymateb, a hyn wedi ei ddisbarthu ymysg y Cynghorwyr eisoes, a'i gyflwyno fel ymateb y Cyngor Cymuned.
  - d. **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – roeddynt yn parhau i ddisgwyl clywed gan y Gyfreithwraig Annest Smith, ac hefyd gan yr Archifdy am wybodaeth am yr Ymddiriedolwyr blaenorol. Cadarnhawyd fod ymholiad wedi ei wneud am y Ty Hers, ond nad oedd posib gwneud dim hyd nes cael mwy o wybodaeth gan Annest Smith. Mynegwyd pryder am y costau - yn benodol y costau cyfreithiol, a gwelwyd y byddai modd gwneud cais i'r Cyngor Cymuned ar ol cael sefydlu ymddiriedolwyr newydd.
  - e. **Adroddwyd y diweddaraf gyda'r ty gwag yn Stad Heulfryn, Aberangell** – nodwyd y gohebiaeth gyda Adra. Roedd pwysau wedi ei roi y dylid rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr lleol.
  - f. **Eglwys Llanymawddwy** – nodwyd ohebiaeth gyda Alex Glanville a Rhiannon Thomas, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at ohebiaeth gyda Arfon Hughes, sef ar y 20fed Awst, 10fed Medi, a 5ed Hydref. Roedd angen penderfynnu ar leoliad bocsus ar gyfer tylluanod yno cyn mynd ymlaen ag unrhyw waith. Nodwyd bwysigrwydd cadw cyswllt gyda'r Clerc gyda'r gohebiaeth yma. Nododd Cyng Arfon Hughes mai ymweld a'r safle yng nghyswllt cysylltiadau Tydecho yr oedd ef yno pan oedd hyn wedi codi. Penderfynwyd y dyllai'r Cynghorwyr Sion Alun Roberts a Hedd Pugh eu cyfarfod ar y safle i benderfynnu ar leoliad y bocsus.
  - g. **Byrddau gwybodaeth** – nodwyd y gwaith sydd ei angen, a chadarnhaodd y Cyng Arfon Hughes ei fod wedi siarad a Hefin Pugh, ac y byddai yn gwneud y gwaith ar yr un pris ag a wnaed yn flaenorol.
  - h. **Arolwg safleoedd Canclwm Siapan** – adroddwyd fod e-bost gan Rhys Owen o'r Parc Cenedlaethol yn dweud fod arolwg wedi ei wneud, ond nad oedd copi i law eto.
  - i. **Enwau lleoedd** – adroddwyd y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, ac adroddodd y Clerc ei fod wedi canfod adran yn Cyngor Gwynedd oedd yn delio efo hyn, ac roedd wedi siarad efo Gwyneth Lewis. Roedd hi wedi gaddo y byddai yn fodlon ysgrifennu yn uniongyrchol ar berchennog anheddau. Gwelwyd fod rhaid cael gwybodaeth llawn erbyn y tro nesaf.

- j. **Ymgyrch annibynniaeth i Gymru** – roedd hyn wedi ei drafod y tro diwethaf. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd, ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio Geriant Morgans, a gyda mwyafrif y Cynghorwyr, na ddylid dod a gwleidyddiaeth i mewn i waith y Cyngor Cymuned, felly ni ddylid mynegi barn ar hyn.

## 5. Materion Cynllunio.

Roedd un cais wedi bod dan ystyriaeth gan y Cynghorwyr ers y cyfarfod diwethaf, sef;

**NP5/74/486 – adeiladu trac mynediad a pont mewn perthynas a rheolaeth coedwigaeth I gynnwys cynaeafu – Coetir Nantyrnog, Dinas Mawddwy**  
Roedd y Cyngor yn gefnogol l'r cais, gan ei fod yn waith angenrheidiol.

Roedd un cais i'w ystyried, sef ;

**NP5/74/113E - Adeiladu garej – Delfryn, Minllyn, Dinas Mawddwy.**

Penderfynwyd fod y Cyngor yn gefnogol i'r cais, gan ei fod mewn lle addas, ac nad oedd yn weladwy l'r cyhoedd. (Cafwyd datganiad o ddiddordeb ar y cais yma gan y Cadeirydd Berwyn Hughes a'r Cyng. Robin Hughes.)

## 6. Materion Cyllid.

Cytunwyd l dalu dau anfoneb oedd i law, sef;

**Cyngor Gwynedd** – cyfraniad l gytundeb darpariaeth toiledau cyhoeddus yn y Dinas - £2000

**HG Web Designs** – rhedeg y wefan, gwaith diweddarau a chynnal a chadw am y flwyddyn - £150.

Adolygwyd a diweddarwyd pawb gyda sefyllfa ariannol y Cyngor i gymharu a'r gyllideb.

Cadarnhawyd fod mandate y banc wedi ei ddiweddarau fel bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn gallu arwyddo.

## 7. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd at lythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri yn dwyn sylw at gronfa prosiectau cymuned, a'r grantiau sydd ar gael.
- b) Nodwyd ymgynghoriad cyhoeddus i'r Canllaw Cynllunio Atodol Drafft – fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol Eryri. Roedd yr holl wybodaeth ar wefan y Parc, gyda dyddiad cau 5yh ar y 13eg o Dachwedd 2020.

## 8. Unrhyw Fater arall.

- a) Trafodwyd drefniadau Sul y Cofio eto eleni, ac ar gynnig Cyng Arfon Hughes a'i eilio gan Geraint Morgans, penderfynwyd mynd ymlaen efo'r trefniadau eto os oedd amgylchiadau yn caniatáu ar y pryd. Byddai'r Clerc yn ymholi am y trefniadau yn y lle cyntaf, ac yn adrodd i bawb.

- b) Roedd gwaith ail-dario wedi ei wneud yn ddiweddar ar ffordd Deunant, ac roedd cwynion mawr am safon y gwaith. Roedd angen cael gwell goruchwyllo am waith contractwyr i osgoi hyn ddiwydd i'r dyfodol.
- c) Roedd dwr yn parhau i redeg ger y grid gwartheg ar Fwlch y Groes, ac yn beryglys dros ben i ddefnyddwyr y ffordd.
- d) Roedd yna ffosydd ar ben Bwlch y Groes angen eu hagor, ac roedd angen atgoffa yr Adran Briffyrdd.
- e) Roedd arwydd y Cyngor Cymuned ym mynwent Mallwyd wedi torri, ac angen un newydd.
- f) Gofynnwyd a fyddai modd gwneud mwy o ddefnydd o hysbysfyrddau yr ardal gan y Cyngor Cymuned. Atebodd y Clerc fod poster yn cael eu danfon allan i bob Cynghorydd cyn bob cyfarfod i'w ddefnyddio yn lleol. Nodwyd hefyd nad oedd rheidrydd bellach i hysbysu gwybodaeth am y cyfrifon ayyb ar hysbysfwrdd (yn ol yr Archwilydd allanol) gan fod gwybodaeth ar y wefan yn ddigonol ganddynt. Hefyd roedd holl wybodaeth am gyfarfodydd y Cyngor yn cael ei roi ar y wefan o leiaf wythnos ymlaenllaw.
- g) Adroddwyd fod bwriad gan y Adran yr Urdd i gyfarfod yn y Neuadd o'r 6ed o Dachwedd, a gofynnwyd a fyddai modd iddynt ddefnyddio y toiledau. Atebodd y Cyng Catrin Jones fod y neuadd wedi gorfod cau y toiledau er mwyn diogelwch y gofalwr a'r rhai sy'n defnyddio y cyfleusterau. Roedd rhaid i Bwyllgor y Neuadd wneud pob ymdrech i gadw o fewn y rheolau, gan gofio hefyd fod yna gyfleusterau cyhoeddus ar stryd Dinas . Dywedwyd fod yna gynrychiolydd gan yr Urdd ar Bwyllgor y Neuadd, a byddai rhaid trafod hyn ymhellach.
- h) Trafodwyd yr angen i osod Coeden Nadolig ar stryd Dinas, a gwelwyd fod rhaid ymdrechu i wneud hyn unwaith eto. Penderfynwyd gofyn i Geraint Gwanas yn y lle cyntaf yn ol yr arfer, ond roedd rhaid cofio nad oedd wedi bod yn dda yn ddiweddar. Cynigiodd y Cyng Catrin Jones gynorthwyo os na allai Geraint ein helpu eleni.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 9fed o Ragfyr 2020 yn Neuadd Aberangell am 7.30 O'R GLOCH. (os nad oedd yn bosib ei gynnal yn Aberangell, byddai modd ei gynnal eto yn Dinas Mawddwy)**

**Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.45yh.**